01/11/18

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

PAR: DATBLYGU CYMHWYSTER TGAU a TAG SAFON UWCH AMGYLCHEDD ADEILEDIG NEWYDD

Efallai eich bod yn ymwybodol ein bod wedi cyhoeddi ein hadolygiad o gymwysterau yn y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig, *Adeiladu'r Dyfodol*, ym mis Chwefror eleni. Ar ôl ymgynghori ar ein cynigion, rydym bellach yn bwrw ymlaen i wneud y canlynol:

i) drwy broses o dendr cystadleuol agored, comisiynu'r gwaith o ddatblygu cymwysterau newydd i gael eu defnyddio mewn addysg bellach a phrentisiaethau;
ii) datblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Amgylchedd Adeiledig (i'w ddysgu o 2021 ymlaen) a TAG UG/Safon Uwch Amgylchedd Adeiledig (i'w ddysgu o 2022 ymlaen).

Ar hyn o bryd, rydym yn chwilio am fynegiant o ddiddordeb gan gyrff dyfarnu a fyddai'n ystyried datblygu TGAU a TAG UG/Safon Uwch Amgylchedd Adeiledig i fodloni'r meini prawf hyn.

Byddwn yn gweithio gyda chyrff dyfarnu sy'n mynegi diddordeb drwy gydol y broses o ddatblygu'r dogfennau meini prawf cymeradwyo ar y gofynion sylfaenol ar gyfer pob cymhwyster.

Nid yw'r cysylltiad â'r cyrff dyfarnu yn y cyfnod cynnar hwn o'r gwaith yn rhagofyniad ar gyfer cymeradwyo cymhwyster sydd wedi ei gynnig eisoes. Unwaith y byddwn wedi cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo terfynol, bydd unrhyw gyrff dyfarnu cydnabyddedig addas yn gallu cyflwyno cymwysterau drafft i'w cymeradwyo. Yn ein profiad ni, fodd bynnag, mae cyd-weithio'n agos â chyrff dyfarnu o'r cychwyn cyntaf yn arwain at ofynion mwy eglur a phroses gymeradwyo fwy esmwyth.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Gan mai cymwysterau wedi'u cymeradwyo fydd y rhain, bydd angen i gyrff dyfarnu sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Os hoffech fynegi diddordeb, atebwch y llythyr hwn, neu anfonwch e-bost atom yn adolygiadadeiladu@cymwysteraucymru.org, erbyn Dydd Gwener Tachwedd 23, 2018.

Er mwyn helpu i esbonio ein dull gweithredu, byddwn ni'n cyhoeddi'r llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,

Y Tîm Datblygu a Chomisiynu.